Opo 00-07-25(08) opoz

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

25 Gorffennaf 2000

Annwyl Gyfaill

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI:**
**AROLWG POLISI AR DROSGLWYDDO'R STOC DAI**

Cefndir

Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal arolwg polisi ar drosglwyddo stoc dai yr awdurdodau lleol i Berchnogaeth Gymunedol.

Bydd yr arolwg yn ystyried p'un a yw'r model sy'n datblygu ar gyfer Perchnogaeth Gymunedol yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion cymunedau lleol a p'un a ellir, drwy ddulliau eraill, gynhyrchu'r arian angenrheidiol fel bod modd gwneud y gwaith atgyweirio a'r gwaith hanfodol o foderneiddio sydd ar ôl i'w wneud.

**Gwahodd sylwadau**

Mae'r pwyllgor am eich gwahodd chi i ychwanegu at yr hyn y maent yn ei ystyried drwy ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig yn nodi safbwynt eich sefydliad ar drosglwyddo'r stoc dai, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ffeithiol, manwl i gefnogi'ch sylwadau. Nid oes ffurf penodedig ar gyfer cyflwyno, ond efallai y byddai cadw cylch gorchwyl yr arolwg mewn cof o gymorth i chi (gweler isod). Rwyf hefyd wedi nodi isod y math o faterion y bydd y Pwyllgor yn eu hystyried fel rhan o'r arolwg.

Efallai y bydd y Pwyllgor am eich gwahodd maes o law i wneud cyflwyniad llafar i gefnogi'ch cyflwyniad ysgrifenedig.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon / Tel: 029 2082 0000 Est / Ext:
GTN: 1208
Ffacs / Fax: 029 2082 0000
Minicom: 029 2082 3280
E-bost / E-mail:

**Cylch gwaith**

Dyma gylch gwaith yr arolwg:

*Ystyried y polisi o drosglwyddo stoc dai yr awdurdodau lleol i Berchnogaeth Gymunedol, ac yn benodol:*

- *y model sy'n datblygu ar gyfer Perchnogaeth Gymunedol a'r graddau y gellir addasu'r model i ddiwallu anghenion cymunedau lleol (gan gynnwys pobl anabl a phobl ag anghenion penodol);*

- *a oes dulliau gwahanol a allai greu'r arian angenrheidiol i dalu am y gwaith o atgyweirio a moderneiddio hanfodol sydd ar ôl i'w gwneud ar gyfer tai cyngor.*

**Materion i'w hystyried yn yr arolwg**

Wrth fwrw ymlaen â'r arolwg, bydd y Pwyllgor yn ystyried y cwestiynau canlynol (nid yw hon yn rhestr drwyadl, ond ei nod yw rhoi syniad o'r math o feysydd y bydd y Pwyllgor yn mynd i'r afael â hwy):

- Beth yw manteision/anfanteision y model sy'n datblygu ar gyfer Perchnogaeth Gymunedol?

- A yw'r model Perchnogaeth Gymunedol yn ddigon hyblyg i gael ei addasu i ddiwallu anghenion cymunedau lleol?

- A ddylid ystyried unrhyw fodelau trosglwyddo stoc eraill?

- Pa rôl all trosglwyddo stoc ei chwarae yn y gwaith o adfywio cymunedau a'u gwneud yn gynaliadwy?

- A ddylai fod uchafswm neu isafswm o ran faint o stoc a ellir ei drosglwyddo?

- Pa wersi a ellir eu dysgu o'r trosglwyddo ystadau a fu yng Nghymru?

- Pa wersi a ellir eu dysgu o'r trosglwyddo stoc a fu yn Lloegr a'r Alban?

- O ran cynghorau a thenantiaid lleol, beth fyddai goblygiadau trosglwyddo i sefydliad Perchnogaeth Gymunedol?

- Pa brosesau sydd eu hangen ar gyfer ymrwymo'r gymuned a sicrhau bod eu sylwadau'n cael eu clywed, yn enwedig y rhai hynny ag anghenion arbennig?

- A oes unrhyw ddewis ar wahân i drosglwyddo stoc a fyddai'n golygu buddsoddiad ar y raddfa sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y gwaith atgyweirio a moderneiddio hanfodol ar gyfer tai cyngor yng Nghymru

(sydd, ar amcangyfrif, tua £1 biliwn) gan gadw o fewn rheolau benthyciad y sector cyhoeddus.

- Beth yw manteision/anfanteision trosglwyddo stoc o'i gymharu â phrosiectau Menter Cyllid Preifat (PFI) tai?

- Pa wersi a ellir eu dysgu o brosiectau PFI tai yn Lloegr?

- Beth yw manteision/anfanteision y cynnig am gwmnïau rheoli hyd braich ar gyfer tai awdurdodau lleol yn y Papur Gwyrdd ar dai.

- Beth fyddai'r goblygiadau i dai cyngor petai'r sefyllfa'n aros fel ag y mae?

**Cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad**

Bwriad y Pwyllgor yw y bydd modd i'r cyhoedd gael gafael ar yr ymateb i'r ymgynghoriad os ydynt yn dymuno hynny. Byddaf yn cymryd yn ganiataol nad oes gennych wrthwynebiad i hyn oni bai eich bod yn nodi eich gwrthwynebiad wrth ateb.

**Amserlen**

A fyddech cystal ag anfon unrhyw gyflwyniadau yr ydych am eu gwneud ataf i erbyn dydd Gwener 29 Medi 2000.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau oddi wrth y sefydliadau sydd wedi'u rhestru ar y daflen amgaeedig. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol fel y gall sefydliadau ac unigolion eraill gyflwyno'u safbwyntiau.

Yn gywir

MARTIN STEVENSON
Clerc y Pwyllgor

**AROLWG POLISI AR DROSGLWYDDO'R STOC DAI**

**SEFYDLIADAU I YMGYNGHORI Â HWY FEL RHAN O'R AROLWG**

Gofal Henoed Cymru

Asiantaeth Gofal a Thrwsio Cymru

Canolfan ar gyfer Rheoli a Datblygu Tai, Prifysgol Caerdydd

Sefydliad Siartredig Tai

Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Cyngor y Benthycwyr Morgeisiau

Anabledd Cymru

Ffederasiwn y Sefydliadau Tai i Bobl Ddu

Cymorth i'r Henoed

Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai

Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol

Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI)

Shelter Cymru

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru

Tenant Participation Advisory Service Wales

Prifysgol Morgannwg

Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC)

Cymdeithasau Cynghorau Bro a Thref Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Wales TUC Cymru

Cyngor Defnyddwyr Cymru

Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ffederasiwn  Tenantiaid Cymru